# Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2017-18

## Arddangosyn 1: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2017-18

Disgrifiad o'r gwaith a wnaed ers yr AGB diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, pan fo hynny'n berthnasol.

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Ebrill 2018 | **Cysoni Dulliau o Gyflawni Newid – Crynodeb o'r Gweithdy**<br>Cyfres o weithdai lle'r oedd aelodau ac uwch swyddogion yn canolbwyntio ar weddnewid a rheoli risg. Gall gwell dealltwriaeth o'r agweddau a'r ymddygiad sy'n dylanwadu ar risg a methiant helpu i wneud penderfyniadau yn well a rheoli risg yn dda. | Casgliad o weithdai Cysoni Dulliau o Gyflawni Newid:<br>• mae sut y caiff senario ei ddisgrifio yn dylanwadu ar sut yr ystyrir risg a methiant;<br>• mae mwy o bobl yn debygol o rannu gwersi a ddysgwyd os ystyrir bod y sefyllfa yn 'ddiogel i fethu' o'i gymharu â phan 'dyw methu ddim yn opsiwn';<br>• mewn senarios sy'n ddiogel i fethu, sy'n cynnwys llawer o elfennau anhysbys, roedd llawer o bobl yn dewis defnyddio synnwyr cyffredin a rhyddid i weithredu yn hytrach na chydymffurfio â phrosesau a rheolau; ac<br>• mae cynnwys defnyddwyr gwasanaethau mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn benodol i gyd-destun. Ymddengys ei fod yn gweithio orau mewn sefyllfaoedd cymhleth pan nad oes atebion eglur.<br><br>Taking Risks - how to make it safe to fail | O ystyried bod y term 'dyw methu ddim yn opsiwn' yn debygol o greu'r syniad y bydd methu yn arwain at ganlyniadau negyddol, gofynnwyd i'r Cyngor ystyried y cwestiynau canlynol:<br>• Pa gamau y gallai eu cymryd i ddisgrifio heriau mewn ffordd sy'n annog risgiau wedi'u rheoli'n dda?<br>• Sut mae'r Cyngor yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd o'i weithgareddau i helpu pobl o fewn ei sefydliad ei hun ac yn ehangach? Sut y cyflawnir hyn os daw'r hyn a ddysgwyd o wersi anodd neu fethiant?<br>• Pa gamau y gallai eu cymryd i gefnogi staff i weithredu mewn ffordd sy'n annog risgiau wedi'u rheoli'n dda? |

